OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 Rhif 719 (Cy.26)

# HADAU, CYMRU

## Rheoliadau Hadau (Ffioedd) (Diwygio) (Cymru) 2000

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud. - -* | *6 Mawrth 2000* |
| *Yn dod i rym. - -* | *7 Mawrth 2000* |

Drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1) ac (1A)(e) o Ddeddf Hadau ac Isrywogaethau Planhigion 1964(**1**) ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol")(**2**), ac wedi ymgyngori, yn unol ag adran 16(1) y cyfeiriwyd ati uchod, â chynrychiolwyr y buddiannau hynny a ymddengys i'r Cynulliad Cenedlaethol yn berthnasol, mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gwneud y Gorchymyn canlynol :

### Enwi, cychwyn a chymwyso

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Hadau (Ffioedd) (Diwygio) (Cymru) 2000, maent yn gymwys i Gymru yn unig a deuant i rym ar 7 Mawrth 2000.

### Diwygio

**2.** Ar ddiwedd Atodlen 6 i Reoliadau Hadau (Ffioedd)1985(**3**) mewnosoder y geiriau canlynol —

"C. Examination fees(**4**)

(i) Examination for crop inspector in respect of
— cereals,
— field beans, field peas and pulses, or
— grasses and herbage legumes,

| | | | |
|---|---|---|---|
| (a) examination | Before the examination | 142.80 | (–) |

(**1**) 1964 p.14; diwygiwyd adran 16 gan Ddeddf Y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p.68) adran 4(1), Atodlen 4, paragraffau 5(1), (2) a (3).

(**2**) Yn rhinwedd Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Cymru) (Rhif 1) 1978 (O.S. 1978/272), trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog dros Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd o dan Ddeddf Hadau a Isrywogaethau Planhigion 1964, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i'r Ysgrifennydd Gwladol. Yna, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(**3**) O.S. 1985/981; O.S. 1990/610 ac 1999/1553 a 1865 yw'r offerynnau perthnasol sy'n diwygio

(**4**) Mae'r cysylltnodau rhwng cromfachau yn y bedwaredd golofn yn dynodi nad oedd ffi statudol gynt yn daladwy am y eitem cyn i Reoliadau Hadau (Ffioedd) (Diwygio) (Cymru) 2000 (2000/ 719(Cy.26 )) ddod i rym ar 7 Mawrth 2000.

| | | | |
|---|---|---|---|
| (b) re-sit examination (other than cereals) | Before the examination | 142.80 | (–) |
| (c) re-sit of either part of cereals examination | Before the examination | 71.40 | (–) |
| (d) re-test | Before the examination | 71.40 | (–) |
| (ii) Examination for crop inspector in respect of<br>— sugar beet, or<br>— Fodder and oil crucifers; turnips; fodder beet and mangels; flax and linseed; soya bean, | | | |
| (a) examination | Before the examination | 89.25 | (–) |
| (b) re-sit of examination | Before the examination | 89.25 | (–) |
| (c) re-test | Before the examination | 71.40 | (–) |
| (iii) Examination for seed sampler | Before the examination | 89.25 | (–)” |

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**)

*Dafydd Elis Thomas*
Y Llywydd

6 Mawrth 2000

(**5**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys i Gymru'n unig, yn diwygio Rheoliadau Hadau (Ffioedd) 1985 (fel y'u diwygiwyd). Mae'r diwygiad yn darparu ar gyfer codi ffioedd am arholiadau a eisteddir gan arolygwyr cnydau a samplwyr hadau (rheoliad 2).